Uwchgynhadledd Cymru'n Cyd-dynnu

Dydd Llun 11 Tachwedd 2013, Caerdydd

Bywgraffiadau

John Smythe

John Smythe arbenigwr blaenllaw ar gyfathrebu ac ymgysylltu sefydliadol. Roedd yn un o sylfaenwyr ymgynghoriaeth Engage for Change, gan weithio gyda sefydliadau ledled y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddatblygu strategaeth a chyflawni newid drwy ymgysylltu â gweithwyr. Mae Smythe yn awdur a siaradwr uchel ei barch ar y cyfraniad y gall ymgysylltu â gweithwyr ei wneud at wella perfformiad sefydliad, ac mae enw da iddo fel ymgynghorydd hefyd. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys: Corporate Reputation: managing the new strategic asset (1992); The Chief Engagement Officer: turning the hierarchy upside down to drive performance (2007); Velvet Revolution at Work: the rise of employee engagement, the fall of command and control (2013).

Jane Tidswell

Uwch Reolwr Cyfrifon gyda Thîm Ymchwil Gweithwyr y Sector Cyhoeddus ORC International, cwmni ymchwil i'r farchnad blaenllaw byd-eang. Mae Jane yn cynllunio rhaglenni ymchwil i weithwyr gyda sefydliadau'r llywodraeth ganolog, llywodraeth leol ac addysg uwch. Mae'n cynnal digwyddiadau rhwydweithio a gweithdai gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o ymgysylltu â gweithwyr a rhannu arferion da. Mae ei chleientiaid diweddar yn cynnwys Prifysgol Caerdydd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Prifysgol Birmingham, Cyngor Swydd Hertford, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Awdurdod Llundain Fwyaf a Transport for London.

Valerie Rees

Mae Valerie yn Bartner Busnes Adnoddau Dynol i Marks and Spencer ac ar hyn o bryd mae hi'n gweithio yn Rhanbarth Gorllewin a De Cymru. Mae hi'n arwain ar y cynllun ymgysylltu â gweithwyr yn y rhanbarth, gan gefnogi rheolwyr sy'n gyfrifol am dros 3000 o gyd-weithwyr. Ymgysylltiad â gweithwyr yw'r mesuriad pobl mwyaf allweddol sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn deall sut mae cyd-weithwyr yn teimlo am y cwmni, eu swydd a'u rheolwr. Mae Valerie wedi gweithio mewn amryw o wahanol swyddi yn y cwmni gan gynnwys hyfforddiant rheoli a datblygu, rhaglenni gwella costau a chaffaeliad siopau.